

# Gweithiwr Cymdeithasol: Tîm Ardal y De

## Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso Graddfa G05 £33,024.00 - £35,745.00

## Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) Gradd 06 £36,648.00 - £39,186.00

Lleoliad: Tŷ Dewi Sant, Ewlo gan weithio ar draws Sir y Fflint ac yn hybrid

Mae yna gyfle i Weithiwr Cymdeithasol weithio o fewn ein Timau Ardal Leol.Bydd deiliad y swydd yn gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol o Weithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Galluogi. Bydd deiliad y swydd yn cyflawni rôl allweddol drwy ymgymryd â llwyth achosion cymhleth gan sicrhau cyfranogiad llawn gan ddinasyddion a'u gofalwyr yn y broses o asesu a chynllunio gofal.

Hefyd, bydd deiliad y swydd yn gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol ac integredig gyda Chydweithwyr Iechyd. Bydd deiliad y swydd yn cyflawni rôl allweddol drwy ymgymryd â llwyth achosion cymhleth gan sicrhau cyfranogiad llawn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr yn y broses o asesu a chynllunio gofal.

Mae gweithio mewn ardaloedd yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i adeiladu ar berthnasau cadarnhaol â chydweithwyr iechyd a'r sector gwirfoddol ac mewn cymunedau lleol. Mae timau Gwaith Cymdeithasol Sir y Fflint mewn Ysbytai yn cael mynediad at amryw o wasanaethau cynnal megis tîm Ailalluogi mewnol, tîm Adnoddau Cymunedol, Gofal Canolraddol ac ymyrraeth therapiwtig i unigolion.

Mae gan Sir y Fflint hanes blaenorol da o gefnogi lles a datblygu gyrfaoedd eu gweithwyr trwy roi goruchwyliaeth unigol, reolaidd a chefnogol a chyfle i gael cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Mae hwn yn gyfle cadarnhaol i unigolion sy'n credu eu bod yn bodloni'r gofynion uchod ac yn ymrwymedig i ddatblygu gwaith yn lleol a grymuso pobl hŷn ar draws Sir y Fflint i gael lleisio eu barn a chadw eu hannibyniaeth.

Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad gydag oedolion diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gyda channoedd o fanwerthwyr ledled y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd datblygu a llawer mwy.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Sian Jones / Rheolwr Tîm Ardal y De / sian.jones@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council